Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	**Rheoliadau Plaleiddiaid a Gwrteithiau (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019**
DYDDIAD	**18 Rhagfyr 2018**
GAN	**Lesley Griffiths AC, Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig**

Rheoliadau Plaleiddiaid a Gwrteithiau (Diwygiadau Amrywiol) (Ymadael â'r UE) 2019

Diwygio deddfwriaeth ddomestig

- Rheoliadau Diogelwch Deunydd Amoniwm Nitrad (Cynnwys Nitrogen Uchel) 2003
- Rheoliadau Plaleiddiaid (Lefelau Uchaf Gweddillion) (Cymru a Lloegr) 2008
- Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion 2011
- Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Ffioedd a Thaliadau) 2011
- Rheoliadau Cynhyrchion Diogelu Planhigion (Defnydd Cynaliadwy) 2011

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol
Mae plaleiddiaid yn fater lle y mae gan y Cynulliad Cenedlaethol gymhwysedd deddfwriaethol ond nid oes gan Weinidogion Cymru unrhyw swyddogaethau.

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n galluogi Gweinidogion Cymru i arfer swyddogaethau ar y cyd â phartïon gan gynnwys yr Ysgrifennydd Gwladol.

Byddai swyddogaethau a drosglwyddir ar y cyd i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Mae'n bosibl, felly, fod hynny'n ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun cymhwysedd y Cynulliad i ddeddfu yn y meysydd hyn yn y dyfodol.

Diben y diwygiadau :
Plaleiddiaid' yw cynhyrchion diogelu planhigion sy'n gwarchod cnydau neu blanhigion dymunol neu ddefnyddiol, sy'n rheoli twf neu sy'n atal twf planhigion diangen. Fe'u defnyddir yn bennaf yn y sector amaethyddol ond hefyd yn y sectorau coedwigaeth, garddwriaeth ac mewn ardaloedd amwynderau a gerddi cartrefi. Er enghraifft, maent yn chwarae rôl sylfaenol ym maes ffermio'r DU ac o ran darparu bwyd, o ran cadw seilwaith trafnidiaeth yn glir o chwyn, cynnal a chadw mannau cyhoeddus a rheoli rhywogaethau goresgynnol. Fodd

bynnag, gan fod cynhyrchion diogelu planhigion yn cynnwys cemegion a grëwyd i amharu ar brosesau bywyd, gall risgiau fod yn gysylltiedig â'u defnyddio.

Bydd y newidiadau a wneir gan yr offeryn statudol hwn yn sicrhau y bydd cynhyrchion diogelu planhigion yn parhau i gael eu rheoli'n effeithiol ar ôl ymadael â'r UE. Bydd hyn yn golygu y bydd gan y DU fframwaith rheoleiddio gweithredol ar ôl ymadael â'r UE er mwyn sicrhau bod cynhyrchion diogelu planhigion yn parhau i beidio ag achosi risgiau annerbyniol i bobl neu'r amgylchedd. Bydd hefyd yn hwyluso'r gallu i gynhyrchu bwyd fforddiadwy ac i fasnachu cynhyrchion bwyd.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol cysylltiedig sy'n nodi effaith y diwygiadau ar gael yma: https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-pesticides-and-fertilisers-miscellaneous-amendments-eu-exit-regulation-2019

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd a hwylustod ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi i'r diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.